# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Mehefin 2018

Amser: 14.30 - 15.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4770

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan David Melding AC.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)229 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hepgoriadau o'r Gofrestr a Gyhoeddwyd) (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 3.1 SL(5)227 - Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

### 3.2 SL(5)228 - Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau a bydd yn adrodd i'r Cynulliad i dynnu sylw at y materion sy'n ymwneud â'r DU yn gadael yr UE.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: SL(5)208 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

### 4.2 Gohebiaeth mewn perthynas â Bil yr UE (Ymadael) a'r Cytundeb Rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth mewn perthynas â Bil yr UE (Ymadael) a'r Cytundeb Rhynglywodraethol, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gael eglurhad pellach gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

### 4.3 Llythyr gan y Llywydd: Llywodraethiant yn y DU ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd a chytunodd i ysgrifennu at y Sefydliad Llywodraethu yn amlygu'r argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ar Lywodraethiant yn y DU ar ôl ymadael â'r UE o ran Cynhadledd i Lefarwyr.

### 4.4 Gohebiaeth mewn cysylltiad ag ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i Gyfraith yr UE yng Nghymru: Trefniadau pontio Brexit

Nododd y pwyllgor yr ohebiaeth mewn cysylltiad ag ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i drefniadau pontio Brexit.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Comisiwn Cyfiawnder i Gymru: Tystiolaeth ddrafft

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth y bydd yn ei chyflwyno i Gomisiwn Cyfiawnder i Gymru a chytunodd arni.

## 7 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 8 Y Pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth - materion gweithredol: Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 9 Bil yr UE (Ymadael): Y wybodaeth ddiweddaraf

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Bil yn Senedd y DU.